

**Cyngor Proffesiynol**

# Disgyblion bygythiol

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

# Disgyblion bygythiol

Yn anffodus, ambell waith mae athrawon a darlithwyr yn wynebu sefyllfa ble nad oes modd rheoli ymddygiad disgybl neu fyfyrwr, neu ble nad yw'n rhesymol i ddisgwyl iddynt wneud.

Cyniga'r daflen hon gyngor ar gyfer y sefyllfaoedd hynny pan fydd angen ystyried cymryd camau i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

## Sefyllfa o ddisgybl bygythiol neu ddisgybl wedi taro athro

Nid oes hawl awtomatig i wrthod dysgu disgybl; byddai gwneud hynny'n golygu torri'r cytundeb gwaith; mae'r *Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* yn cyfeirio at gyfrifoldeb athro i "addysgu gwersi i'r dosbarthiadau maent wedi'u neilltuo i'w haddysgu".

Wedi dweud hynny, mae UCAC o'r farn ei fod yn gwbl annerbyniol i athrawon fod dan straen oherwydd ymddygiad disgyblion neu iddynt fod dan fygythiad mewn unrhyw ffordd yn y gweithle. Nid yw'n rhesymol i ddisgwyl i chi weithio mewn sefyllfaoedd bygythiol.

Petai gan aelod bryder am iechyd a diogelwch oherwydd disgybl byddai UCAC ar gael i gynghori'r aelod ac i gynnig cefnogaeth lawn.

## Trafodaeth gyda'r Pennaeth a Swyddog UCAC

Y cam cyntaf yw sicrhau bod y Pennaeth yn ymwybodol o bryderon y staff a'r rhesymau am y pryderon hynny, ac yn cael cyfle i fynd i'r afael â'r broblem.

Mae'n rhaid rhoi cyfle i'r Pennaeth ddatrys y broblem cyn gweithredu mewn unrhyw ffordd arall. Gall Swyddog Maes drefnu cyfarfod gyda'r Cynrychiolydd ysgol a'r Pennaeth er mwyn trafod a phwysleisio difrifoldeb y sefyllfa.

## Cyflwyno Cwyn Swyddogol

Yn ogystal, mae modd cyflwyno cwyn swyddogol i'r Pennaeth o dan weithdrefn gwyno'r ysgol. Gellir gwneud hyn naill ai fel unigolyn sydd wedi'i effeithio gan ymddygiad disgybl, neu fel cwyn torfol gan grŵp o aelodau staff. Byddai'n rhaid i'r llywodraethwyr ymchwilio i'r gŵyn.

## Pleidlais swyddogol am wrthod dysgu'r disgybl

Os oes sefyllfa'n codi ble nad yw athrawon wedi cael cefnogaeth i ymdrin â disgybl bygythiol, mae aelodau UCAC mewn rhai ysgolion wedi mynd i bleidlais ynglŷn â gwrthod dysgu disgybl. Rhaid gallu dangos bod yr Uwch Dîm Rheoli wedi cael cyfle digonol i weithredu cyn cymryd y cam hwn.

Mae cynnal pleidlais gudd swyddogol, naill ai ymhlith aelodau un undeb neu ymhlith y staff cyfan, yn diogelu aelodau rhag cyhuddiad o dor-cytundeb.

Os yw'r posibilrwydd o gynnal pleidlais dan ystyriaeth, bydd Swyddog Maes ar gael i drafod y mater gyda'r staff a'r Pennaeth. Mae'n rhaid dilyn camau cyfreithiol ac amserlen benodol ar gyfer pleidlais gudd a bydd y Swyddog Maes yn gallu cynghori ar hynny a llywio'r trefniadau.

## I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, [mererid@ucac.cymru](mailto:mererid@ucac.cymru)
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, [ioan@ucac.cymru](mailto:ioan@ucac.cymru)
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, [gareth@ucac.cymru](mailto:gareth@ucac.cymru)
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, [jen@ucac.cymru](mailto:jen@ucac.cymru)

## Yn ogystal, mae modd cysylltu â:

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, [dilwyn@ucac.cymru](mailto:dilwyn@ucac.cymru)
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi ac Is-ysgrifennydd Cyffredinol, [rebecca@ucac.cymru](mailto:rebecca@ucac.cymru)

Diweddarwyd: Mehefin 2021



**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,  
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@ucac.cymru](mailto:ucac@ucac.cymru)

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

[www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)